

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun **9 Tachwedd 2015** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

Cymerwyd y weddi gan Cyng. Phil Jones.

### **1-11/15: Presennol**

Cadeirydd Cyng. W A Evans

Is-Gadeirydd Cyng. R Cadwalader

Cyng. Sian Williams

Cyng. Elizabeth Regan

Cyng. Dr E Tudor Jones

Cyng. R T Price

Cyng. Henry Jones

Cyng. Eirwyn Williams

Cyng. Phil Jones

Cyng. Dafydd Lloyd

Cyng. Elizabeth George

### **2-11/15: Ymddiheuriadau**

Cyng. Wayne Roberts

### **3-11/15: Datgan diddordeb**

Ni dderbyniwyd datganiadau o ddiddordeb gan yr aelodau.

### **4-11/15: Cadarnhau Cofnodion mis Hydref**

Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Adroddwyd bod mater 0910/15 (Gwastraff anghyfreithlon yn arosfa Caerdyini) bellach wedi ei ddatrus.

### **5-11/15: Materion yn codi trwy ohebiaeth**

**a) Polisi cynllunio.** Yn dilyn trafodaeth ddiweddar rhwng y Cyngor Tref ac adran gynllunio Cyngor Gwynedd parthed y drefn penderfynu ar geisiadau cynllunio, derbyniodd y Cyngor Tref gais gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy i drefnu cyfarfod ar y cyd gyda Dafydd Elis-Thomas, Aelod y Cynulliad, er mwyn trafod y sefyllfa ac i amlinellu'r pryderon.

Penderfyniad: Cytunwyd i dderbyn y gwahoddiad, i glustnodi dyddiad cyfleus, ac i enwebu Cadeirydd Cyng. W A Evans, Cyng. Dr E Tudor Jones a Cyng. R Price i gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

**b) Llythyr am waith uwchraddio gorsaf ffônau symudol Penysumllyn.** Derbyniwyd llythyr gan gynllunydd yn gweithredu ar ran Vodafone a Telefónica, yn amlinellu gwaith uwchraddio arfaethedig i orsaf ffôn Penystumllyn. Rhag-rybudd oedd hwn yn ymwneud â chais cynllunio a fydd yn cael ei gyflwyno i adran gynllunio'r cyngor sir.

Penderfyniad: I dderbyn y wybodaeth ac i drafod y cais yn llawn pan y bydd yn cael ei gyflwyno yn swyddogol.

**c) Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd.** Roedd y Cyngor Sir yn ymgynghori ar ddiweddariad i'w Datganiad o Bolisi Trwyddedu.

Penderfyniad: Derbyniwyd y wybodaeth, doedd dim sylwadau.

#### **6-11/15: Ceisiadau cynllunio**

a) Cais C15/1063/35/LL

Cais i ddymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd – No Chimneys, Muriau.

Penderfyniad: Argymell caniatáu'r cais.

b) Cais C15/1108/35/LL

Dileu amod 2,3,a 6 ynghlwm a chaniatâd cynllunio rhif C11/0164/35/LL er mwyn defnyddio'r unedau fel fflatiau preswyl parhaol yn lle unedau gwyliau.

25/26 Marine Terrace.

Penderfyniad: I gefnogi'r cais, ond i ddatgan i Gyngor Gwynedd bod gan y Cyngor Tref bryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y gall mwy o geisiadau tebyg arwain at dwf mewn eiddo amlfeddiannaeth a fydd yn cael effaith negyddol ar y dref.

*Ni gymerodd y Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, unrhyw rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar y cynlluniau hyn.*

#### **7-11/15: Trafnidiaeth**

a) Llwyn Brith

Adroddodd Cyng. Dr E Tudor Jones ar y sefyllfa parcio a thrafnidiaeth yn yr ardal hon yn dilyn ychwanegu llinellau melyn ger y fynedfa i Llwyn Brith. Roedd y drefn newydd wedi helpu i leddfu y problemau blaenorol, ond erbyn hyn mae ceir wedi cychwyn parcio yr ochr arall i'r ffordd ac felly yn creu problem newydd, sef gwddf potel a chulni ger Llwyn Brith, y ganolfan iechyd a'r gorsaf betrol. Nodwyd hefyd gan aelodau bod y lefel o drafnidiaeth wedi cynyddu yn 2015 a bod yna bryderon ynglŷn â chyflymder cerbydau wrth iddynt gyrru mewn i'r dre o gyfeiriad Pwllheli draw at yr ardal dan sylw.

Penderfyniad:

I drefnu ymweliad safle gyda swyddogion adran drafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

I'r clerc i ymchwilio'r posibilrwydd o osod arwydd 30 m.y.a. sy'n fflachio yn yr ardal yma, y gost o osod arwydd ac unrhyw faterion yn ymwneud â derbyn caniatâd.

b) Parcio ger gwesty'r Lion

Lleisiwyd pryderon ynglŷn â bysus yn parcio yn yr ardal hon sydd yn ei gwneud yn beryglus iawn i blant pan fyddan nhw cerdded ar hyd y ffordd.

Penderfyniad:

Penderfynwyd i drafod y sefyllfa yma hefyd yn ystod y cyfarfod/ymweliad safle.

#### **8-11/15: Cais am gyfraniad gan Barêd Dewi Sant**

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gymdeithas Parêd Dewi Sant Pwllheli yn gwneud cais am gyfraniad ariannol tuag at y digwyddiad yn 2016. Roedd yr aelodau yn teimlo bod y parêd yn un buddiol i'r ardal ehangach, nid Pwllheli yn unig, er y lleisiwyd barn y dylai'r Gymdeithas wahodd ac annog busnesau/sefydliadau Criccieth i gymryd rhan yn y dathliadau.

Penderfyniad: I roi cyfraniad o £100 ac i ofyn i'r gymdeithas i wahodd grwpiau/busnesau'r dre i gymryd rhan mewn unrhyw ffordd neu i gynnal digwyddiadau.

### **9-11/15: Llythyr gan Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor**

Derbyniwyd llythyr yn datgan pryderon am y toriadau arfaethedig i'r uned Cefn Gwlad a Mynediad a gyflwynir yn ymgynghoriad Her Gwynedd y cyngor sir.

Penderfyniad: Nodwyd bod yr ymgynghoriad yma yn cwmpasu nifer o wasanaethau, a nad oedd unrhyw un o'r opsiynau a amlinellir yn Her Gwynedd eto wedi eu mabwysiadu – ni fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Gyngor Gwynedd tan 2016. Ar hyn o bryd yr oedd yn anodd i'r Cyngor Tref ddatgan barn gan nad oedd eto yn glir pa opsiynau a fydd yn cael ei mabwysiadu yn yr achos hwn.

### **10-11/15: Trafod cyfrifiadur ac argraffydd i'r clerc**

Derbyniwyd amcanbrisiau ar gyfer gluniadur ac argraffydd 'all in one' gan Porthmadog Computers:

Lenovo Laptop	£299.00 (yn cynnwys TAW)
Brother All-in-One Printer	£89.99 (yn cynnwys TAW)
Microsoft Office	£119.99 (yn cynnwys TAW)

Penderfyniad: I ganiatau i'r clerc archebu'r eitemau ac hefyd i roi caniatad i'r clerc i brynu'r papur ac inc pan fo angen.

### **11-11/15: Penodi dau Aelod i archwilio dogfennau ariannol y Cyngor a llenwi'r ffurflen briodol**

Penderfynwyd mai'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y dylai archwilio'r dogfennau o hyn ymlaen.

### **12-11/15: Gŵyl Criccieth – llythyr gan Dylan's Restaurant**

Roedd Dylan's Restaurant yn awyddus i drefnu cyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Tref er mwyn trafod cynlluniau i gynnal 'Anglesey and Gwynedd Foodslam' yn ystod Gŵyl Criccieth yn 2016.

Penderfyniad: I drefnu cyfarfod ac enwebwyd Cadeirydd Cyng. W.A. Evans, Cyng. Robert Cadwalader, Cyng. Elizabeth George a'r Cyng. Sian Williams fel cynrychiolwyr.

### **13-11/15: Llythyr yr Aelod Seneddol**

Roedd yr Aelod Seneddol, Liz Saville Roberts, wedi derbyn llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn am gefnogaeth i osod cyfyngiad o 20 m.y.a. ar hyd glan y môr Criccieth.

Penderfyniad: Roedd yr aelodau yn cefnogi'r cynnig i gyfyngu'r cyflymder i 20 m.y.a. ar hyd y ffordd o Morannedd i Lôn Fel, ond gan nad oedd y Cyngor Tref wedi derbyn copi o'r llythyr gwreiddiol roedd yr aelodau yn amharod i gefnogi unrhyw gynnyg ychwanegol gall ymddangos yn yr ohebiaeth. Penderfynwyd cysylltu â'r A.S. er mwyn gallu derbyn copi o'r llythyr a gweld y pwyntiau llawn a godir ynddo.

### **14-11/15: Derbyniadau**

Dim derbyniadau i law.

### **15-11/15: Taliadau**

£392.00 Cyflog y Clerc	siec 100971
£ 98.00 Cyllid y Wlad	siec 100972
£425.00 Costau'r Clerc	siec 100973
£180.00 Atkin Groundworks – Cynnal llwybrau	siec 100974
£ 93.60 Argraffdy Mart – papur pennawd	siec 100975

Derbyn yr wybodaeth a rhoi'r hawl i'r clerc i dalu yr holl biliau.

### **Caëedig**

Trafod ac arwyddo cytundeb gwaith y Clerc newydd.

### **Mynd yn ôl yn agored**

### **16-11/15: Adroddiad gan Gyng. Eirwyn Williams par. y twll yn y morglawdd islaw i Abereistedd**

Roedd y mater brys yma wedi codi yn ddiweddar gan fod y concret uwchben peiben all-lif wedi chwalu yn ddifrifol gan greu twll peryglus. Bu'r aelod yn trafod y sefyllfa gyda swyddogion Cyngor Gwynedd sydd bellach wedi cytuno i drwsio'r twll trwy ei lenwi â choncrit – mae'r adran beirianeg yn aros am brisiau i wneud y gwaith.

Gan fod y difrod mor beryglus, lleisiwyd pryder nad yw Cyngor Gwynedd yn y cyfamser wedi rhoi ffens ddiogelwch o amgylch y twll.

Penderfyniad: I gysylltu â'r swyddog perthnasol a gofyn i Gyngor Gwynedd i osod ffens ddiogelwch o amgylch y twll ar frys.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y.h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar Nos Lun, **14 Rhagfyr 2015** am 7.00 o'r gloch.

Bydd y rhaglen yma yn cau ar **4 Rhagfyr 2015**

---